


# **papur**



# **priordy**

SUAI'R GWYNT, SUAI'R GWYNT  
WRTH FYNED HEIBIO I'R DRWS;  
A MAIR AR EI GWELY GWAIR  
WYLIAI EI BABAN TLWS:  
SYLLAI YN DDWYS YN EI WYNEB LLON,  
GWASGAI WAREDWR Y BYD AR EI BRON,  
CANAI DDIDDANOL GÂN:  
'CWSG, CWSG, F'ANWYLYD BACH,  
CWSG NES DAW'R BORE IACH,  
CWSG, CWSG, CWSG'.

*Nantlais 1874-1859      Caneuon Ffydd 471*  
*Dewiswyd gan Nicki Roderick, Gweler y tu mewn am ei rheswm*

**Rhifyn 350**  
**PAPUR RHAGFYR 2021**

## Gair gan ein Gweinidog

### Angylion

**MAE** arddangosfa arbennig o angylion wedi agor mewn eglwys yn Wrecsam i gofio am y miloedd sydd wedi marw o Covid-19.



Dros y flwyddyn ddiwethaf mae caredigion Eglwys y Plwyf San Silyn wedi cynhyrchu 6,000 o angylion o bob lliw a llun. Mae'r angylion mewn rhwydi sy'n hongian i fyni mewn tŵr a chorff yr eglwys a byddan nhw yna tan fis Ionawr.

Mae pob angel yn cynrychioli bywyd a gafodd ei golli ac maen nhw wedi cael eu creu gyda phapur sydd naill ai'n newydd neu sydd wedi ei ailgylchu, gwlân a deunyddiau eraill. Am wledd i'r llygaid.

Mae llawer o sôn am angylion yn y Beibl. Ein dealltwriaeth ni, Gristnogion, yw bod angylion yn arwydd o ymwneud Duw â ni, yn arwydd o ddiddordeb Duw ynom a'i awydd i'n harwain drwy fywyd.



Mae i'r angylion le amlwg yn hanes y geni, gan taw hwy a fu'n gyfrifol am gyhoeddi'r newyddion am enedigaeth Iesu i'r bugeiliaid.

Ydych chi'n credu mewn angylion? Rydw i'n rhyw gredu fy mod yn credu ynddynt! Hynny yw, Ei angylion E yn gweithio drwy bobl.

Nid rhywrai sy'n gwisgo gwyn a chanddynt adenydd ac eurgylch o amgylch eu pennau! Yn hytrach, pethau neu bobl neu Iesu sy'n trosglwyddo negeseuon i ni oddi wrth Dduw.

Mae'n bosib ein bod yn dod o hyd i un yn ein cydwybod - un sy'n

gwneud i ni oedi ac i feddwl, ac i ystyried! Y llais mewnol hwnnw sy'n ein rhwystro rhag gwyro oddi ar lwybr Duw.

Neu efallai bod yna angel yn ein hymyl, mewn ffurf aelod o'r teulu. Duw yn gweithio drwyddynt, a'i neges yn cael ei throsglwyddo drwyddynt a'i ewyllys yn cael ei gyflawni ynddynt.

Ond am heddiw, cyn y Nadolig, fe gofiwn am y neges fwyaf a gyhoeddwyd i'r byd erioed, oddi wrth Dduw, a thrwy'r angylion, fod y Meseia wedi ei eni... a'i ewyllys wedi ei gyflawni.

**O deuwch ffyddloniaid...**

**O cenwch, angylion, cenwch, gorfoleddwch...**

**O cenwch, chwi holl ddinasyddion y nef:**

**cenwch: "Gogoniant i Dduw yn y goruchaf!"**

**O deuwch ac addolwn,**

**O deuwch ac addolwn,**

**O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!**



**Gweddïwn**

**Arglwydd,**

**Pan fydd arnom ofn, anfon angylion i'n  
calonogi.**

**Pan fyddwn yn drist, anfon angylion gyda  
newyddion da.**

**Pan fyddwn yn hapus, gad i ni ganu caneuon dathlu.  
A phan fyddwn yn gweld eraill mewn angen, helpa ni i fod yn  
angylion iddynt.**

**Yn enw Iesu.**

**Amen**



**NADOLIG LLAWEN**

**Pob bendith i bawb dros Ŵyl y Nadolig  
oddi wrth**

**Beti-Wyn, Elin a Sara.  
Cadwch yn ddiogel ac yn iach**



| Mis Rhagfyr    | Darlleiniad       |
|----------------|-------------------|
| Wythnos 1      | Philipiaid 1:3-11 |
| Wythnos 2      | Philipiaid 4:4-17 |
| Wythnos 3      | Luc 1:39-55       |
| Noswyl Nadolig | Ioan 1:1-14       |
| Dydd Nadolig   | Luc 2: 1-20       |
| Wythnos 4      | Luc 2: 41-52      |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DAVID A MARGARET LEWIS**

**Y RHODFA**

*at gyhoeddi'r Papur y mis hwn*



## CALENDR ADFENT RHITHIOL YR OFALAETH

Ymunwch â ni'n ddyddiol  
drwy'r Adfent ar  
Wepryd Capel y Priordy

Diolch i'r  
Dr Angharad a Ieuan Wyn  
am baratoi'r  
Calendr

## Y DYFODOL

Mae Cam 1 Cynllun Gofalu am Adeiladau'r Priordy wedi digwydd, sef adnewyddu'r cafnau ar ddwy ochr y capel a'r llechi rhydd ar y to. Roedd hi'n angenrheidiol cyflawni'r gwaith hwn ar fyrder a chyn y gaeaf. Mae'n dda dweud bod y gwaith wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Ar ben hynny, gosodwyd dwy ffenestr newydd yng nghefn y Festri a gwnaethpwyd peth gwaith paentio. Rydym yn ddyledus iawn i Is-bwyllgor yr Adeiladau a'i Gadeirydd gweithgar, Huw Jones, am drefnu a goruchwyllo'r cyfan.




Mae tri cham i'r Cynllun ond cyn symud ymlaen at Gamau 2 a 3 (a fyddai'n golygu gwaith sylweddol ag iddo gost aruthrol) ac yn unol â phenderfyniad y Cwrdd Eglwys, penderfynwyd pwylllo a sefydlu Gweithgor i ystyried y gwahanol opsiynau sy'n ein hwynebu parthed yr adeilad a'r safle. Rydym yn rhagweld y bydd y Gweithgor yn dechrau ar ei waith yn weddol gynnar yn y flwyddyn newydd gan arwain yn y pen draw at gynhyrchu argymhellion i'r Cwrdd Eglwys eu hystyried ymhellach.

Rhown wybod i chi am unrhyw ddatblygiadau.

**CASGLIAD OLAF AM Y FLWYDDYN  
Y SUL OLAF AR GYFER DERBYN EIN CYFRANIADAU  
AM ELENÍ YW  
12 Rhagfyr 2021**

**COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYIS**



## Cwrdd Plant Dydd Sul 7 Tachwedd 2021



**B**raf oedd gweld y plant yn cymryd at yr Oedfa unwaith yn rhagor a, gyda'r Nadolig yn agosáu, yn ein hatgoffa mai "*nid aur yw popeth melyn*" a bod ystyr y Nadolig yn fwy nag anrhegion ac addurniadau lliwgar. Felly ar ôl y weddi agoriadol a chroeso'n Gweinidog a thiwnio Band y Priordy dyma fynd ati i ganu'r emyn cyntaf, *Dyro gân dan fy mron*.

Ar ôl y cyhoeddiadau gan y Dr Huw Michael, aeth Ifan, Cadi, Osian a Gwilym o gwmpas y gynulleidfa gyda'r blychau casglu.

*Un cam bach* oedd yr emyn nesa ac yn dilyn daeth Trystan i'r pulpud i ddechrau ei anerchiad drwy ein hatgoffa mai dim ond 47 diwrnod oedd yn weddill tan y diwrnod mawr a thrwy ofyn beth oedd ar restr anrhegion pawb. Beth bynnag, cawsom ein hatgoffa gan Trystan nad yw adeg y Nadolig yn un hapus i bawb gan fod prinder arian a bwyd mewn nifer o wledydd ymhell ac agos yn y byd. Cyflwynodd eitem ar y sgrîn oedd yn amlinellu rhai o'r diffygion sy'n wynebu nifer, sef diffyg addysg, gofal meddwl, diogelwch a dŵr glân.

Daeth Elliw i'r pulpud wedi hyn i gyflwyno gweddi a diolch am bopeth sy'n hardd yn y byd - teuluoedd, ysgol a ffrindiau, gan ddweud pa mor bwysig yw cofio'r rhai llai ffodus sy'n fyr o freintiau materol a dynol.

Tro lestyn oedd hi i ddod i'r pulpud nesa ac i barhau'r thema ond yn canolbwyntio ar bwysigrwydd teuluoedd, cartrefi, ffrindiau ac iechyd da, yn enwedig dros gyfnod anodd Covid gan gofio mai lesu Grist ddylai fod ar ben rhestr pob un ohonom.

Wrth gyflwyno'r emyn nesa "*Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw*" dyma lestyn yn ein hatgoffa i osod Duw o flaen popeth arall.

Yna, cawsom neges gan ein Gweinidog. Nawr, mae gan Beti- Wyn ddawn o dynnu cymariaethau'n effeithiol â bathu termau newydd. A dyma ni'n dysgu mai Ffyn Fferins yw'r gair swyddogol am *Candy Canes*, ie, y pethau lliwgar melys yna sy'n hongian ar y goeden Nadolig. Ac yn ôl ei harfer o ymchwilio'n drwyadl i'w phwnc dysgon ni mai yn ninas Cologne yn 1670 y daeth y pethau hyfryd hyn i fodolaeth. Pwysleisiodd fod y lliw coch yn cynrychioli gwaed Iesu Grist a lifodd er ein mwyn ni ar y Groes a'r lliw gwyn yn arwyddo purdeb a glendid Iesu Grist yn ei fywyd a'i waith bob dydd. Mae'r ffyn hefyd yn teimlo'n galed ac yn ein hatgoffa o'r sylfaen gadarn a geir trwy ddilyn Iesu. Mae'r ffyn ar siâp ffon fugail sy'n help iddo dynnu dafad i ddiogelwch ar y mynyddoedd geirwon a hynny'n ein hatgoffa o eiriau Iesu pan ddywedodd 'Myfi yw y Bugail Da.'



**D**iolch yn arbennig i'r plant am eu gwaith graenus unwaith yn rhagor a diolch hefyd i Fand y Priordy am gyfeilio i'r emynau.



**CARDIAU NADOLIG  
CYMORTH CRISTNOGOL**

**Ar gael yn y Capel  
o 5 Rhagfyr ymlaen**

**AR Y WE: [www.priordy.org](http://www.priordy.org) (yn cynnwys Papur Priordy)**

**Ym Mhapur Priordy ym mis Hydref buom yn dathlu geni T Gwynn Jones, un o feirdd mwyaf Cymru yn y mesurau caeth, 150 o flynyddoedd yn ôl i eleni.**

Mae pump o emynau ganddo yn *Caneuon Ffydd* gan gynnwys un garol, sef Rhif 480 Mae'r nos yn ddu, a gwynt nid oes...

Cyfieithiad o waith Arthur L Salmon (1865-1952) yw'r garol hon. Roedd Salmon yn frodor o Gaer-wysg ac yn newyddiadurwr ac awdur wrth ei alwedigaeth. Cyhoeddodd nifer o gyfrolau o farddoniaeth ynghyd â chyfrolau ar Gernyw ac ar siroedd gorllewin Lloegr, yn cynnwys Dyfnaint a Dorset.


Yn deyrnged i T Gwynn Jones ar adeg nodedig yn ei hanes dyma ddyfynnu'r garol o'i eiddo'n gyflawn:

Mae'r nos yn ddu, a gwynt nid oes,  
un seren sy'n y nef,  
a ninnau'n croesi maes a bryn  
i'r fan y gorwedd ef,  
holl obaith dyn yw ef.

Nid oes ogoniant yn y fan,  
dim ond yr eiddo ef,  
a'r golau mwyn ar wyneb Mair  
fel gweddi tua'r nef,  
o galon mam i'r nef.

Nid mangre geni t'wysog yw,  
nid man i lawen lu,  
er hynny, clywodd nef a llawr  
ganiadau'r engyl fry,  
orfoledd engyl fry.

O faban glân, mor brudd yw'r bron  
gan wae sy'n gwywo'n gwedd:  
O canwn iti'r bore hwn  
ganiadau newydd hedd,  
ganiadau bythol hedd.





# *Stampiau Cristnogol - Nadolig 2021*

*Cofiwch ofyn amdanynt!*



**Mae stampiau Cristnogol newydd eleni'n cynnwys chwe stamp cain yn portreadu stori'r Nadolig - o'r angel Gabriel yn ymddangos i Mair hyd at enedigaeth wyrthiol Crist.**

**Cawsant eu dylunio gan Jorge Cocco Santángelo (ganed 1936), arlunydd ac athro arlunio o'r Ariannin.**



**Mae Cocco Santángelo a'i briod Myriam Verbauwen yn rhieni i chwech o blant. Mae Cocco'n aelod o Eglwys Iesu Grist a Saint y Dyddiau Diwethaf (Mormoniaid).**

**Mae'r stampiau hyn i'w croesawu  
gan eu bod yn gyfrwng i gynnal delwedd grefyddol y dathlu, yn  
enwedig wrth i ni bostio'n cardiau Nadolig.**

**Mae'r Post Brenhinol yn cyhoeddi stampiau bob Nadolig, ar  
thema seciwlar a chrefyddol am yn ail fel arfer. Mae hefyd yn  
sichrau bod stamp gyda'r Forwyn Fair a'r baban Iesu ar gael yn  
ystod blwyddyn cyhoeddi stampiau seciwlar.**


**Cofiwch felly ofyn am stampiau Cristnogol eleni. Mae'n bwysig i  
ni gofio fod yna berygl i'r dyluniadau Cristnogol leihau os yw'r  
gwerthiant yn disgyn!**

**Y dyddiadau postio olaf a argymhellir er mwyn i bost gyrraedd  
mewn pryd ar gyfer y Nadolig yw:**

**Dydd Sadwrn 18 Rhagfyr 2021 ar gyfer post Ail Ddosbarth  
a**

**Dydd Mawrth 21 Rhagfyr 2021 ar gyfer post Dosbarth Cyntaf**

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?  
Trowch at: [cyfundeb.com](http://cyfundeb.com)**



## **CYMER FY MUNUDAU Elfed ap Nefydd Roberts**

**Cyhoeddiadau'r Gair - Medi 2021  
£16.99**

**Casgliad cynhwysfawr o weddïau cwbl  
wreiddiol o waith  
Elfed ap Nefydd Roberts  
Dros 400 ohonynt**

# NADOLIG SIÂN THOMAS



## **Sut ydych chi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

*Fel arfer bydda i wedi bod yn gweithio'n cyflwyno Prynhawn Da a Heno tan Noswyl y Nadolig - penllanw mis o raglenni fflat owt ar baratodau'r Ŵyl! Ar ddydd Nadolig ei hun felly bydda i wrth fy modd yn ymlacio gyda 'r teulu, rhoi 'nhraed lan a gwyllo bach o deledu - fel pawb arall dw i'n siŵr. Fel merch y Mans roedd y Nadolig wastod y tu hwnt o brysur yn ein tŷ ni, ond y diwrnod ei hun yn dawel braf gyda'r teulu. Dw i'n caru'r wythnosau'n arwain at y Nadolig, ond ar y 25 ain, mae'n braf cael amser gyda'r teulu.*

## **Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

### **Cwrs Cyntaf**

*Dw i'n caru bach o eog wed'i fygu*

### **Ail Gwrs**

*Twrci gyda'r trimins i gyd, a digon o grefi!*

### **Trydydd Cwrs**

*Pwdin Nadolig gyda saws brandi - fy hoff bwddin yn y byd i gyd!*

## **Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

*Dw i wedi derbyn cymaint o anrhegion gwych - bach a mawr dros y blynyddoedd, ac wedi dwlu ar bob un ohonyn nhw.*

## **Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

*Dw i'n caru pob un ac wrth fy modd pan ddaw dechre mis Rhagfyr i ni gael eu canu yn y cwrdd. Un o'r ffefrynnau yw Suai'r gwynt. Mae'r harmoni mor fendigedig, ac mae'n dwyn atgofion yn ôl yn syth o noson drama'r geni yng Ngapel y Wern Ystalyfera (hen gapel Dad), a chanu hon mewn harmoni perffaith yn un o barti o ferched yn ein harddegau. Mae'n suo gân hyfryd sy'n cynnwys holl elfennau stori'r Nadolig a'r hyn sydd yn wynebu'r Baban yn y crud ddiwedd ei oes.*

**Gwynn Bowyer.....**

## **NADOLIG FY MHLENTYNDOD**

**YN** rhyfedd iawn, nid oedd y Nadolig yn bwysig pan oeddwn yn blentyn. Rhywbeth i blant oedd yr Ŵyl. Doedd hi ddim mor bwysig i oedolion.

Tua'r Nadolig canwyd ambell i garol mewn



oedfa. Ym Mangor, fel yng Ngwynedd a rhannau helaeth o siroedd y gogledd, y Flwyddyn Newydd a'r Wythnos Weddi oedd yn bwysig, gyda chwrdd gweddi yn y capeli bob nos.



Yn yr Alban y flwyddyn newydd sy'n bwysig. Tybed ai hen gof am ddefodau Celtaidd sydd y tu ôl i hyn?



Cofiaf fod gorsaf Rheilffordd Bangor yn canu




hwteri'r trenau yn y bore bach ynghyd â chlychau eglwysi'n canu a hefyd ambell i glec ffrwydron ar reiliau'r orsaf gyda'r cerbydau'n mynd drostynt.

Erbyn meddwl, ni welais gerdyn yn dymuno Nadolig Llawen, heb ei gysylltu â Blwyddyn Newydd Dda. Doedd pobl ddim yn arfer

anfon cerdyn os oedd modd i'ch cyfarch yn bersonol cyn dydd Nadolig.



Ychydig oedd y "trimins" oedd i'w gweld gan gofio fod cwtogi'r rhyfel yn rhan o fywyd pob teulu.



Cofiaf ddau beth anarferol, sef côr o un o gapeli'r dref ar ben lori agored, gyda meinciau o'r ysgoldy, yn canu

carolau gan gasglu arian ar gyfer rhyw elusen. Yr ail – pedwar

carcharor Almaenig yn cael gwahoddiad i ginio Nadolig gyda ni a theulu'r **Dr Pennar Davies**, ei wraig yn Almaenes a ddihangodd o'r Almaen pan ddaeth Hitler i rym.

Roedd carchar “agored” yn Hiraef ger y môr gyda'r milwyr ar fin mynd yn ôl i'r Almaen gan fod y rhyfel drosodd. Roedd nifer o Gristnogion Bangor am estyn cariad yr Efengyl i ddwyn cymod gyda'r cyn elynion.

Mae pob plentyn yn awchu am fore dydd Nadolig i agor ei hosan, ac er mai ychydig



o anrhegion bach gydag oren a chnau ar y gwaelod a gawsom, eto ar ôl codi o'r gwely byddem yn agor rhai parseli oedd dan goeden Nadolig fechan yn y parlwr.

Cofio stori a aeth fel tân gwyllt o gwmpas plant yr ardal, sef bod bachgen barus wedi rhoi cas clustog i fyny gyda'i hosan ar waelod ei wely, gan ddisgwyl i Siôn Corn (*Father Christmas* cyn iddo gael ei Gymreigio) ei llenwi. Yn y bore gwelodd fod yr hosan y tu mewn i'r cas clustog a'r ddau yn WAG!

Dysgodd pawb a glywodd y stori i beidio â bod yn farus, ond bod yn ddiolchgar.

Bob blwyddyn ers dechrau'r rhyfel roedd modryb i ni a oedd yn byw ers blynyddoedd yn yr Unol Daleithiau yn anfon parcel bwyd i ni, wedi'i lapio newn comics Americanaidd. *Marvel* comics nad oedd y rhan fwyaf o blant Prydain heb eu gweld erioed. Roeddwn yn bur boblogaidd yn yr ysgol!

**SUT** roedd Mam yn gallu coginio cinio Nadolig mewn cyfnod o gyni, dim ond hi a ŵyr. Dyma gyfnod pan oedd cael cyw iâr, heb sôn am ŵydd, yn costio mwy na chig oen! Fel mae pethau wedi newid – nid er gwell bob tro!





## DIWRNOD HAWLIAU DYNOL

10 Rhagfyr 2021

**MAE'R** Diwrnod Hawliau Dynol yn cael ei ddathlu bob blwyddyn ar 10 Rhagfyr – yr union ddiwrnod ym 1948 y mabwysiadwyd y Datganiad Cyffredinol am Hawliau Dynol gan Gyngor Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn y Palais de Chaillot ym Mharis.



Cafodd y Datganiad ei fabwysiadu o ganlyniad uniongyrchol i brofiadau'r Ail Ryfel Byd ac mae'n cynrychioli am y tro cyntaf yr hawliau a'r rhyddidau sylfaenol a rennir gan bob bod dynol. Mae'n cynnwys 30 erthygl sydd wedi cael eu ehangu ymhellach ers hynny mewn cytundebau rhyngwladol a deddfwriaeth hawliau dynol cenedlaethol a lleol. Mae'r ddogfen hon ar gael mewn mwy na 500 o ieithoedd. Hi yw'r ddogfen sydd wedi'i chyfieithu fwyaf yn y byd.



Ffuriodd y Datganiad y sylfaen ar gyfer y **Confensiwn Ewropeaidd** ar Hawliau Dynol. Chwaraeodd cyfreithwyr Gwledydd Prydain rôl allweddol yn y broses o ddrafftio'r Confensiwn hwn. Cafodd ei lofnodi yn Rhufain ym 1950 a daeth i rym ym 1953. Mae'n diogelu hawliau dynol pobl mewn gwledydd sy'n aelodau o Gyngor Ewrop, gan gynnwys y Deyrnas Unedig. Does a wnelo Cyngor Ewrop unrhyw beth â'r Undeb

Ewropeaidd.

Hawliau dynol yw'r hawliau a rhyddidau sylfaenol sy'n eiddo i bob person yn y byd, o enedigaeth tan farwolaeth. Maent yn gymwys heb ystyried o ble rydych yn dod, yr hyn rydych yn ei gredu neu sut rydych yn dewis byw eich bywyd. Ni ellir eu tynnu byth, er gallant gael eu cyfyngu ar brydiau – er enghraifft os yw person yn torri'r gyfraith, neu er budd diogelwch cenedlaethol. Mae'r hawliau sylfaenol hyn wedi'u seilio ar werthoedd fel urddas, tegwch, cydraddoldeb, parch ac annibyniaeth. Ond nid yw hawliau dynol yn gysyniadau haniaethol yn unig – maent yn cael eu diffinio a'u diogelu gan y gyfraith.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r hawliau a gyflwynir

yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith domestig Prydain. Mae hyn yn golygu, os yw eich hawliau dynol wedi'u torri, y gallwch fynd â'ch achos at lys Prydeinig yn hytrach na gorfod ceisio cyfiawnder gan Lys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbourg, Ffrainc.

Corff sy'n hybu a chynnal delfrydau cydraddoldeb a hawliau dynol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Fe'i sefydlwyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae'n gorff annibynnol ac yn helpu i wneud Gwledydd Prydain yn decach yn eu nod. Un o brif ddibenion swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yw sicrhau bod polisiau a weir gan y Comisiwn ym Mhrydain yn adlewyrchu anghenion Cymru.



Gwnaeth y Comisiwn waith pwysig wrth alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddangos arweinyddiaeth yn COP26 drwy wneud ymrwymïadau penodol i amddiffyn hawliau dynol yn well yng nghyd-destun newid hinsawdd.

Rhaid cael gwyliwr ar y tŵr yng ngyd-destun hawliau dynol bob amser! Meddai datganiad gan Senedd Ieuencid Cymru yn 2019 (a

ddiweddarwyd yn 2021):

*Mae'n glir fod camwahaniaethu yn parhau i ddigwydd yn ein byd ni a bod rhai pobl mewn rhai gwledydd yn fwy ffodus nag eraill. Mae'n rhaid i ni sefyll lan dros ein hawliau ein hunain a phobl eraill a gwybod mai byd teg yw byd lle mae gan bawb hawliau dynol a'u bod yn gallu parhau i wneud cynnydd wrth geisio diogelu cenedlaethau'r dyfodol a'u hawliau nhw fel pobl.*

Yn un o'i bapurau mae'r Comisiwn Cydraddoldeb yn sylwi ar effaith anghyfartal Covid-19 ar bobl hŷn a phobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig, rhai menywod a phobl yn byw dan anfantais cymdeithasol - economaidd. Mae'r Comisiwn yn gyfrwng i sicrhau nad ydym yn anghofio'r bobl hynny yr effeithir arnynt gan yr argyfwng yn fwy nag eraill.

Diolchwn i gyrff hawliau dynol y Deyrnas Unedig a thu hwnt am ein hatgoffa o bwysigrwydd mynd i'r afael â hawliau dynol yn gyson y

dyddiau hyn. A ble nad yw hawliau dynol wedi'u derbyn ac yn cael eu parchu diolchwn fod prosiectau fel **Amnest Rhyngwladol** yn gweithio i ymgyrchu dros y bobl anffodus hynny.



Mae'n amlwg fod ffordd enfawr i fynd cyn i ni sicrhau fod pawb yn gyfartal yng ngolwg Duw. Diolch am Ddiwrnod Hawliau Dynol am ddod â ni at ein coed. Mae'r Diwrnod yn annog pawb i siarad a gwneud rhywbeth ynghlŷn â rhoi diwedd ar wahaniaethau beth bynnag eu ffurf a ble bynnag mae'n digwydd. Yn flynyddol mae enw gwahanol i'r diwrnod.

Yn 2021, mae Diwrnod Hawliau Dynol yn ffocysu ar sut mae hawliau'n ddechrau penodol ar gyfer creu heddwch o fewn cymunedau, a ffordd o greu cymuned fwy teg ar gyfer y dyfodol.

**COFIWN** y Nadolig hwn a phob amser yn wir nad oes hawliau gennym oherwydd ein bod yn eu haeddu, nac ychwaith oherwydd ein bod wedi'u hennill neu oherwydd ein bod yn wyn neu'n ddu, yn wryw neu'n fenyw. Mae hawliau gennym oherwydd bod pob un ohonom wedi'i greu ar ddelwedd Duw a hynny'n rhoi gwerth ac urddas inni i gyd o'r herwydd. Mae angen parchu hyn. Mae gan bob un hawl i fyw!



### **CARTREF PLAS Y DDERWEN GWASANAETH NADOLIG**

*gyda'n Gweinidog*

**Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021 am 2.00pm**

***Croeso cynnes i bawb***

### **DIOLCH YN FAWR**


Diolch i Beti-Wyn a Jayne Woods a Nicki Roderick am y lluniau'r mis hwn.



**Beth am droi at  
Wefan yr Undeb?  
[www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org)**







**MWY NAG UN LLWYFAN**  
**Arwyn Thomas**

**Y Lolfa - Hydref 2021: £9.99**

*Hunangofiant cyn bennaeth Ysgol Maesryrfa,  
Cefneithin*


**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 9 Mawrth 2022 am 7  
yn y capel**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r  
ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r  
Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

**CWRDD DIACONIAID A BAENORIAID AC  
YMDDIRIEDOLWYR YR OFALAETH**

**Nos Fercher 23 Mawrth 2022 am 7  
yng Nghana**



**O'R CYRION I'R CANOL**  
**Ieuan Wyn Jones**

**Y Lolfa - Hydref 2021: £9.99**

*Hunangofiant cyn arweinydd Plaid Cymru  
a'r cyn ddirprwy Weinidog Cyntaf*

*Datgelir straeon rhyfeddol am gyfnod  
pwysig yn hanes Cymru*

# NADOLIG GUTO HARI



## **Sut ydych chi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

*Ryn ni'n dechre'n gynnar y dyddie 'ma - yn sgelfrio ar iâ, mynd i Eglwys Gadeiriol San Steffan ac yna Pizza ar noswyl Nadolig. Ar y dydd, llwyth o fwyd, gwin, teulu a thro bach ar lan y Tafwys cyn bwyta mwy. Dal i fwynhau gwyllo "Love Actually" a'r "Dyn 'Nath Ddwyn y 'Dolig".*

## **Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

### **Cwrs Cyntaf**

*Eog mwg gyda lot o lemwn a phupur du.*

### **Ail Gwrs**

*Gŵydd wedi ei choginio'n araf gyda stfffin cartre, llysie a grefi mam (o Gynwyl Elfed).*

### **Trydydd Cwrs**

*Pwdin Dolig yn steics mewn brandi.*

## **Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

*Anodd dweud ond yn meddwl mai'r tricie, gadgets a jôcs yn fy hosan pan o'n i'n blentyn oedd yn creu fwyaf o gyffro, a gwybod bod Siôn Corn wedi dewis pethe mor wreiddiol.*

## **Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

*Noson Oer Nadolig gan Meic Stevens - athrylith gyda'r ddawn i gloriannu teimladau dwys gyda symrlwydd eithriadol. Y gân angenrheidiol arall yw Ryan yn canu 'Nadolig, Pwy a Wyr'.*

**TORCH YR ADFENT**  
**Diolch i Gill Owens am ei pharatoi**



# Ifanc @Priordy

*Nadolig Llawen i bawb*

## **Calendr Adfent Digidol**

Cofiwch wyllo ein Calendr Adfent Digidol bob dydd o Ragfyr 1af ar YouTube. Cofiwch ofyn am ganiatâd eich rhieni cyn mynd at y cyfryngau cymdeithasol i'w wyllo!

### **Apêl yr Ysgol Sul a PIP**

Byddwn yn gwneud ein casgliad blynyddol tuag at waith yr Ysgol Sul ar 12 Rhagfyr. Os yw'n ddymuniad gennych gyfrannu drwy'r banc, dyma fanylion cyfrif yr Ysgol Sul:

Ysgol Sul  
Eglwys Y Priordy'  
20-18-54  
30775622



*Joiwch y  
Nadolig!  
Hwyl am y  
tro,  
Beti-Wyn*

# Teulu'r Priordy'n Dathlu'r Nadolig

Nos Sul, 6 Rhagfyr am 5  
Oedfa dan olau kannwyll  
yng ngofal PIP



Prynhawn Sul, 12 Rhagfyr  
am 3 o'r gloch



Gwasanaeth Nadolig yr eglwys  
'Addurno'r Goeden Nadolig'  
Pawb i wisgo siwmpwr Nadolig!

Diod oer a briwgacs i ddilyn yn ein seddau  
Casgliad tuag at waith yr Ysgol Sul a PIP

Oedfa fer am 9 i'r teulu cyfan.

Os bydd Siôn Corn wedi galw,  
dewch ag un o'ch anrhegion i'r gwasanaeth!





# **MWYNHAU SGWRS RHIAN EVANS YN YR YSGOL SUL**





## RH



Pa mor dda ydych chi'n'nabod eich emynau? Mae'n Fis Rhagfyr  
ac mae pob gair sy'n eisiau yn yr her isod yn dechrau gyda RH.  
Rhowch gynnig arni! Pob lwc!!

|    |                                     |     |
|----|-------------------------------------|-----|
| 1  | -- dy fendith, Ysbryd Glân          | RH  |
| 2  | O Arglwydd Dduw -----               | RH  |
| 3  | Tydi sy'n llywio --- yr amser       | RH  |
| 4  | Os gofyn ----- beth yw Duw          | RH  |
| 5  | ----- a rhyfeddol                   | RH  |
| 6  | Duw mawr y ----- maith              | RH  |
| 7  | Mae ----- dirgel Duw                | RH  |
| 8  | Yn fy nghalon ----- Iesu gân o fawl | RH  |
| 9  | Disgyn, lôr, a ----- nefoedd        | RH  |
| 10 | O gariad pur, ---- iti glod         | RHA |

Atebion ar Dudalen 37



## TEITHIAU HYNOD!

**Bu cylch o gyfeillion a chydabod yn cysylltu ag Irene Williams adeg dathlu'i phen-blwydd yn 100 oed yn diweddar.**



**Yn eu mysg roedd y Dr Hefin Jones a fu'n**

**sgwrsio â hi am hanes y teithiau y buont arnynt gyda Myriel Davies a Chymdeithas y Cenhedloedd Unedig. Bu Hefin wrthi'n crynhoi peth o'r hanes a'n braint ni yw cyfleu ychydig ohono i chi.**



### Meddai Hefin:



Bu IW gyda Myriel yn Tsieina ond doeddwn i ddim ar y trip hwnnw.

Credu iddi hefyd fod gyda Myriel yn

Efrog Newydd a Phencadlys y Cenhedleodd Unedig fan honno ond doeddwn i chwaith ddim ar hwnnw.



Buom gyda'n gilydd yng Nghiwba ac ymweld ag ysbyty (roedd Ciwba ar flaen y gad yn fyd-eang yn ei thriniaeth o AIDS ar y pryd) a hefyd ysgol eilradd (Ciwba gydag un o lefelau llythrennedd uchaf yn y byd – dros 95%). Buom hefyd mewn ffatri gwneud sigârs a dilyn trywydd y tybaco o'r cae i'r bocs sigârs! Uchafbwynt oedd cyfarfod â *Pastors for Peace* – sef grŵp o weinidogion Americanaidd oedd yn herio'r drefn ac yn dod â loriau o fwyd o'r UDA trwy Mecsico i gyrraedd Ciwba - roedd yr embargo yn gryf iawn ar y pryd. Un peth sydd wedi aros yn fy nghof oedd bod yr Undeb Sofietaidd newydd ddymchwel pan oeddem yno ac roedd sebon yn brin iawn yn Ciwba oherwydd mewnforio sebon o Rwsia oedd Ciwba – felly roedd Myriel wedi gofyn i ni gyd-deithio gyda chymaint ag y medrem o sebonau bach fel sydd mewn gwestai i'w rhoi i drigolion Ciwba. Bu Irene hefyd ar drywydd Ernest Hemingway yn Hafana – a gweld ei hoff sedd! Roedd Siân ap Gwynfor gyda ni hefyd.



Buom hefyd gyda Myriel yn Ne Affrica ychydig fisoedd ar ôi i apartheid ddod i ben. Yn Cape Town cawsom gyfarfod â'r Esgob Tutu – aeth â ni o amgylch y Gadeirlan. Buom hefyd yn nhrefedigaeth y



Cape Flats a gweld y tlodi aruthrol. Yn Johannesburg buom yn trafod materion yn ymwneud â Materion Morol y Cenhedloedd Unedig a Deddfau Rhyngwladol Morol newydd; cawsom hefyd ymweld â Soweto a chael galw heibio yng nghartref Nelson Mandela a chartref

Desmond Tutu a chyfarfod â Mama Tutu. Bu i ni hefyd ymweld â Phrifysgol Stellenbosch, Gwinllan enwog Stellenbosch, Table Mountain – yn anffodus nid oedd y tywydd yn dderbyniol i ni fynd i Ynys Roben. Yn lle hynny, aethom i lawr i Benrhyn Gobaith a gweld y pengwiniaid. Cawsom ein derbyn yn y Senedd yn Pretoria a'r Llefarydd Frene Ginwala, ffrind agos i Myriel, yn ein hannerch a'n harwain o amgylch y Senedd.

Y daith olaf i mi ei gwneud gydag IW oedd i lorddonen. I Aman a chyfarfod â llysgennad Prydain, gweld yr adfeilion Rhufeinig yn Jerash a dysgu am y bywyd Arabaidd. Cawsom hefyd deithio i Syria ac ymweld â'r Mosg Mawr yn Namascus lle, yn ôl traddodiad, mae pen loan Fedyddiwr. Bu i ni hefyd gael cipolwg ar y ffenestr o ble y cafodd Paul ei ollwng lawr yn y fasedd! O Syria aethom i fyny i Ucheldiroedd Golan a threulio diwrnod gyda Lluoedd Heddwch y Cenhedloedd Unedig fan honno. Cawsom ymweld â Dyffryn y Wylofain a theimlo dros y teuluoedd a rannwyd pan gytunwyd ar y ffin rhwng Lebanon a Syria – a phobl yn gorfod gweiddi ar draws y ffin ar ei gilydd bellach. Daeth diwedd y daith yn Petra - y Ddinas Dywod. Galw ar y ffordd yn y Môr Marw a hefyd ymweld â gwersyll ffoaduriaid (Palestiniaid wedi croesi o'r Llain Orllewinol). Cofio i Irene a fi geisio – ond methiant llwyr – ddefnyddio'r hookah shisha gyda dwy biben a thybaco blas afal!



***Diolch yn fawr iawn i Hefin ac os ydych yn dymuno gwybod mwy am Myriel Davies mae modd i chi droi at y Bywgraffiadur Cymreig ar lein ble mae'n olrhain ei hanes.***



# HWYL DROS YR WYL! CWIS NADOLIG Y PRIORDY – 2021

*Gareth Gravell yn ein herio!*



**1** Ym mha iaith y cafodd y Testament Newydd ei ysgrifennu'n wreiddiol?

- Lladin
- Groeg
- Hebraeg



**2** Beth oedd oedran Iesu pan ddaeth y tri gŵr doeth i ymweld ag e?

- Blwydd
- Dwy flwydd
- Baban newydd ei eni



**3** Sawl llyfr sydd yn y Beibl?

- 73
- 71
- 66



**4** Defnyddiodd Samson asgwrn gên asyn i ladd sawl dyn?

- 100
- 500
- 1000



**5** Beth oedd oedran Methuselah pan fu farw?

- 969
- 826
- 900



**6 Beth yw ystyr y gair 'Manna'?**

- Bara'r Angylion
- Mae Duw'n darparu
- Beth ydy e?



**7 Beth yw'r gair olaf yn y Beibl?**

- Amen
- Iesu
- Crist



**8 Beth yw'r llyfr byrraf yn y Beibl?**

- Titus
- 2 Ioan
- Philemon



**9 Pwy dorrodd walft Samson?**

- Samson
- Gwas
- Delilah



**10 Pa unig lyfr yn y Beibl sy ddim yn cynnwys y gair Duw?**

- Esther
- Càn Solomon
- Ruth



***Diolch yn fawr iawn i Gareth am baratoi'r cwis***

***Gweler yr atebion ar Dudalen 37***



# MYNYDD O ANRHEGION AT APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR!


*Diolch i bawb a gyfrannodd*



**YN DYMUNO CYFAMODI AR DDECHRAU  
BLWYDDYN NEWYDD?**

**DENNIS JONES  
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**



**YSBRYDION  
Elwyn Edwards**

**Barddas - Hydref 2021: £8.95**

*Cyfres o hanesion arswyd wrth i'r awdur rannu'i  
brofiadau o gysylltu gyda byd yr ysbrydion*


**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY YN 2022?**

**Cyswllt**

**PHILIP JONES**

**Trysorydd**

**☎ 01267 233437 / [info@maxevans.co.uk](mailto:info@maxevans.co.uk)**



**CYMRU MEWN 50 CERDD  
gol  
Alan Llwyd**

**Barddas – Tachwedd 2021 £11.95**

*Cyhoeddiadau Barddas yn dathlu 40  
mlynedd eleni gyda chasgliad o 50 o  
gerddi o leoedd arbennig yng Nghymru,  
gyda chyflwyniad i bob un gan y  
golygydd Alan Llwyd a lluniau lliw gan y  
ffotograffydd Iestyn Hughes*




### Rheswm Nicki Roderick dros ddewisygarol Hwiangerdd Mair (395)



**Y**n flynyddol mae cyfnod y Nadolig yn profi'n amser prysur dros ben i mi fel athrawes gerddoriaeth. Un o bleserau'r swydd yw trafod a phendroni, ac yn y pen draw, dewis allan o'r llith o garolau traddodiadol a modern sydd yn bodoli erbyn hyn, y carolau hynny i berfformio gyda chorau'r ysgol a hefyd gyda Chôr Seingar. Yn ystod y broses yma dros y blynyddoedd, daw un garol yn ôl i frig y rhestr bron yn ddieithriad a honno yw 'Hwiangerdd Mair'.

Wrth wrando ar y garol hon rwy'n dychwelyd i gyfnod fy mhлentyndod ym Mrynaman ac i Gapel Ebeneser lle treuliais oriau hapus iawn. Mae'r atgofion yn fyw o fynychu'r ysgol Sul a dysgu emynau a charolau gyda Mrs Price wrth y piano. Byddai'r perfformiadau gyda'r plant eraill mewn capel a oedd yn orlawn adeg gwasanaeth y Nadolig.



Yn ystod y flwyddyn roedd yna edrych ymlaen yn eiddgar (a sicrhau fy mod yn ferch dda wrth gwrs) i'r uchafbwynt, sef derbyn ffrog newydd er mwyn ei gwisgo i'r gymanfa ganu, ond adeg y Nadolig roedd y sefyllfa ychydig yn wahanol. Fe fyddai mam yn flynyddol yn creu gwisg angel gydag adenydd cardfwrdd enfawr wedi eu gorchuddio gyda ffoil coginio ac elastig trwchus i'w dal yn eu lle. Clymwyd tinsel lliw arian o amgylch fy mhen er mwyn fy ngwneud yn angylaid ac fe fyddai 'Gabriel' yn arwain datganiad soniarus o 'Hwiangerdd Mair' gan gôr o angylion bach prysur a brwdfrydig!

Cofiaf hefyd, fel petai ddoe, actio stori'r geni yn yr ysgol. Wedi dod dros y siom enfawr bod yr athrawes, a fydd yn ddiennw, wedi castio rhywun arall i fod yn Mair, credwch neu beidio, bu'n rhaid i mi fodloni i fod yn un o'r sêr-ddewiniaid doeth. Fi oedd Caspar balch yn cario'r aur yn ofalus a chelfydd i'r sedd fawr, a oedd wedi ei thrawsnewid yn



rhyfeddol i fod yn stabl argyhoeddiadol, gyda fy nghyd-deithwyr o'r dwyrain sef Melchior a Balthasar. Wedi cyflwyno'r anrhegion yn dyner i Mair, a minnau erbyn hyn wedi dod dros y siom ac wedi maddau iddi - wel bron â bod beth bynnag, cofiaf ganu'r garol 'Hwiangerdd Mair'.

Cafodd y gweinidog, bardd, emynydd, golygydd a chyfansoddwr y garol arbennig yma, sef **William Nantlais Williams**, yr ieuengaf o ddeg plentyn Daniel a Mari Williams, ei eni ar 30 Rhagfyr 1874 yn



Llawr-cwrt, Gwyddgrug gerllaw Pencader, Sir Gâr. Cafodd ei addysg yn ysgol elfennol New Inn, ac yn 12 oed prentisiwyd ef yn wehydd gyda'i frodyr. Magwyd ef yn eglwys New Inn, ac yno y dechreuodd bregethu ym 1894. Addysgwyd ef ar gyfer y weinidogaeth yn ysgol ramadeg Castellnewydd Emlyn ac yng Ngholeg Trefeca. Yn y flwyddyn 1904 daeth y Diwygiad i Rydaman, ac fe gafodd digwyddiadau

Tachwedd y 4ydd tan y 6ed ddylanwad enfawr arno. Fe ddaeth yn un o arweinyddion blaenllaw Diwygiad 1904 -1905.

Roedd Nantlais yn weinidog yng Nghapel Bethany, Rhydaman pan gyfansoddodd eiriau 'Suai'r Gwynt' i dôn wahanol i'r hyn yr ydym yn ei chysylltu gyda'r geiriau heddiw. Cyhoeddwyd y gosodiad sy'n adnabyddus heddiw gan Haydn Morris, hefyd o Sir Gaerfyrddin, ym 1940-41. Bu yntau, fel ei dad, yn gweithio yn y pwll glo nes iddo benderfynu yn ei ugeiniau ddilyn gyrfa mewn cerddoriaeth.

Mewn dau bennill cynnil a theimladwy, mae geiriau'r garol yn crynhoi tynerwch a gwyrrh holl ddigwyddiadau'r Nadolig cyntaf, ynghyd â rhybudd am yr hyn sydd i ddod o ran tynged Crist. Mae sain dyner y garol yma yn creu naws arbennig sy'n rhoi delwedd glir o Fair yn gwylio ac yn mynwsu ei baban sef 'gwareddwr y byd' gyda'r amseriad 6/8 yn atgyfnerthu'r olygfa o Mair yn siglo'r baban Iesu i gysgu.



**E** drychaf ymlaen eto at hyfforddi, paratoi a pherfformio'r garol hynod deimladwy a thyner yma eleni ac am lawer blwyddyn i ddod.


## EMYN NANTLAIS YN GYFLAWN

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Suai'r gwynt, suai'r gwynt<br/>wrth fyned heibio i'r drws;<br/>a Mair ar ei gwely gwair<br/>wyliai ei baban tlws:<br/>syllai yn ddwys yn ei ŵyneb llon,<br/>gwasgai Waredwr y byd at ei bron,<br/>canai ddiddanol gân:<br/>cwsg, cwsg, f'anwylid bach,<br/>cwsg nes daw'r bore iach,<br/>cwsg, cwsg, cwsg.</p> | <p>Cwsg am dro, cwsg am dro<br/>cyn daw'r bugeiliaid hyn;<br/>a dod, dod i seinio clod,<br/>wele mae'r'r doethion syn:<br/>cwsg cyn daw Herod â'i gledd ar ei glun,<br/>cwsg, fe gei ddigon o fod ar ddi-hun,<br/>cwsg cyn daw'r groes i'th ran:<br/>cwsg, cwsg, f'anwylid bach,<br/>cwsg nes daw'r bore iach,<br/>cwsg, cwsg, cwsg.</p> |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

## PROCIO'R COF

**Goronwy Evans**

**Y Lolfa - Tachwedd 2021: £7.99**



*Hunangofiant cymeriad unigryw sy wedi  
bod yn weinidog am hanner canrif ac sy'n  
un o gymeriadau blaenllaw Llambod*

**BETH AM DREULIO POB MIS YN YSTOD 2022 MEWN  
CWMNI DA!!**

**Y TYST**

**50c y rhifyn!**

**Archebwch ar gyfer 2022! Cysyllter â Sulwyn Thomas**



## NADOLIG SYR BRYN TERFEL



**Sut ydych chi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

***Cyfnod i ffwrdd o ddysgu nodau ac amser di-dor gyda'r teulu gartref.  
Wrth gwrs, yn flynyddol, fe fydd cais am eira, doed a ddelo!***

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf**

***Rhywbeth ysgafn. Samwn wedi'i smygu.***

**Ail Gwrs**

***Twrci gyda'r holl addurniadau yn boddhi mewn grefi a'r ffefryn newydd,  
saws bara!***

**Trydydd Cwrs**

***Pwdin Nadolig.***

***...ac i'w hategu at y rhestr uchod, y gwinoedd! Tipyn o feddwl a blasu  
wedi mynd 'mlaen yn ystod y flwyddyn. Mae na Albariño o Sbaen yn  
barod i'r samwn, Malbec o'r Ariannin gyda'r twrci a gwin melys o Dde  
Affrig yn dod i'r brig gyda'r pwdin!***

**Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**


***Pan oeddwn i'n 10 oed, cefais gêm 'Shoot a Spook', a'i mwynhau'n  
ofnadwy am hanner awr...nes i 'mrawd, lan, ei thorri! Heddiw, dwi'n un  
anodd i gael anrheg iddo – potel o win neu beli golff yn gwneud  
y tro'n iawn!***

**Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

***El Nacimiento - hon yn garol gwnes i gyd-ganu â José Carreras. Geiriau arbennig a thiwn hyfryd sydd mor gofiadwy.***



**Carol o Gymru - Tua Bethlehem Dref.**




**D J JAMES**  
**Ei Fywyd a'i Ddylanwad**

**Richard Morgan**

**James Pantyfedwen - £18**  
**Tachwedd -2021**

***Hynt a helynt bywyd***  
***D J James, gŵr â'i wreiddiau'n ddwfn ym***  
***Mhontrhydfendigaid a Cheredigion***



**O'R AMAN I'R YSTWYTH**  
**Glan Davies**

**gydag**  
**Alun Wyn Bevan**

**Y Lolfa - Hydref 2021: £9.99**

**Stôr o straeon difyr gan y digrifwr a'r actor**  
**o Frynman.**

# NADOLIG RHYS PATCHELL



**Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

***Bydd Nadolig yn dechre ganol nos, yng Ngwasanaeth Noswyl yn Minny Street yna codi yn gynnar i agor hosan, cyn mynd mas i ymarfer cicio, achos, er bod dim gêm dydd Nadolig, bydd gêm drannoeth. Gartre wedyn i gael cinio Nadolig gyda'r teulu a chwmpo i gysgu gyda bola llawn bwyd.***

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf  
Sŵp Moron ac Oren**

**Ail Gwrs  
Cinio Nadolig traddodiadol**

**Trydydd Cwrs  
Tarten Lemwn**

**Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

***Mynd i sgïo gyda fy mrawd am yr wythnos. Dydw i ddim yn cael sgïo oherwydd fy ngwaith ond roedd y gwyliau yna'n digwydd bod y Nadolig ola cyn imi ddechrau chwarae'n broffesiynol.***

**Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

**Gŵyl Y Baban (ddim yn garol draddodiadol) ond byddai criw ohonom yn y 6ed yn canu carolau o gwmpas Yr Eglwys Newydd – dyma'r unig un oedd modd canu SATB!**



## NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

### AGOR Y LLYFR

Mae'r criw sy'n gyfrifol am gynllun **AGOR Y LLYFR** wedi cyfarfod ar Zoom i wneud trefniadau i baratoi fidio i'r ysgolion gogyfer â'r Nadolig. Bwriedir mynd i fferm leol i wneud yr actio. Cewch fwy o'r hanes y tro nesaf.



### CYFARFOD EGLWYS

Fore Sul 7 Tachwedd cynhaliwyd Cyfarfod Eglwys gwahanol i'r arfer gyda rhai aelodau yn y capel a rhai ar Zoom a'r ffôn. Gan fod y trysorydd yn cyflwyno ei neges ar *PowerPoint* roedd yr aelodau oedd ar y ffôn wedi derbyn gwybodaeth ymlaen llaw. Aeth y cyfan yn ddidrafferth.

### BEDYDD

Trefnwyd i gynnal bedydd yn y capel fore Sul 21 Tachwedd. Am 8 o'r gloch y bore Sul hwnnw, derbyniodd y Gweinidogion neges gan deulu'r bedydd yn dweud nad oedd rhai o'r aelodau'n teimlo'n rhy dda. Am fod sefyllfa Covid yn ddrwg yng Nghaernarfon a Gwynedd ar hyn o bryd, awgrymwyd gohirio'r bedydd dan yr amgylchiadau. Onid braf yw cael teuluoedd sy'n meddwl nid yn unig am eu diogelwch eu hunain ond am ddiogelwch eraill hefyd?!



*Cyfarchion yr Ŵyl i'n cyfeillion yn Salem Caernarfon oddi wrth bawb ohonom yn y Priordy a diolch i chi am anfon eich hanesion diddorol atom o fis i fis. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr.*



## DYLETSSWYDDAU



### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Rhagfyr      |             | Ionawr       |              |
|--------------|-------------|--------------|--------------|
| Gofalwr      | Gwresogwr   | Gofalwr      | Gwresogwr    |
| Dennis Jones | Huw Michael | Alun Charles | Adrian Evans |



### DARLLENWYR



| Rhagfyr | 5  | Meinir Jones  | Ionawr | 2  |                     |
|---------|----|---------------|--------|----|---------------------|
|         | 12 | Oedfa Nadolig |        | 9  | Y Plant             |
|         | 19 | Alun Charles  |        | 16 | Catrin Heledd Jones |
|         | 26 | Bancyfelin    |        | 23 | Miriam Wyrwoll      |
|         |    |               |        | 30 | Huw Jones           |



### CYHOEDDWYR



| Rhagfyr | Philip Jones | Ionawr | Huw Michael |
|---------|--------------|--------|-------------|
|---------|--------------|--------|-------------|

### ATEBION HER YR EMYNAU

Mae'r rhifau yn cyfeirio at Ganeuon Ffydd

1. RHo (33); 2. RHagluniaeth (84); 3. RHod (100); 4. RHywun (171);
5. RHyfeddol (190); 6. RHyfeddodau (216); 7. RHwydwaith (280);
8. RHoddodd (415);
9. RHwyga'r (583); 10. RHown (775)



### HWYL DROS YR WYL!

### CWIS NADOLIG Y PRIORDY – 2021!



### ATEBION

1. Groeg
2. Dwy flwydd
3. 66
4. 1000
5. 969
6. Beth ydy e?
7. Amen
8. 2 loan
9. Gwas
10. Esther





**DYMUNWN** yn dda i bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am Greta, merch Meredydd a Nia, ac un o blant yr Ysgol Sul. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Bu protestwyr yn gorymdeithio mewn lleoliadau ar draws Cymru - y cyfan yn rhan o ddiwrnod o weithredu byd-eang i nodi diwedd wythnos gyntaf COP26 ar 6 Tachwedd. Roedd gorymdaith Caerdydd yn cychwyn y tu allan i Neuadd y Ddinas ac yna'n teithio drwy ganol y brifddinas at y Senedd. Yn yr orymdaith roedd Beti-Wyn fel Llywydd Undeb yr Annibynwr Cymraeg.

Cynhaliwyd cyfarfod boreol hyfryd yn Ysgol y Dderwen i ddathlu cyfraniad y ddiweddar Siân Axford i fywyd yr ysgol ac i ddiolch amdano. Dewiswyd thema hynod o berthnasol ar gyfer y cyfarfod sef diwylliant a thraddodiadau gwahaol wledydd Ewropeaidd, yn enwedig o gofio hoffter Siân o ieithoedd a'i chredo mewn edrych ar y byd drwy fwy nag un ffenestr a'r teithiau a drefnodd i wledydd tramor. Bellach, yn yr ysgol hefyd mae ffenestr liw i gofio am Siân, o waith Jo Partridge, artist preswyl, a'r disgyblion ar y cyd. Diolch yn fawr iawn i bennaeth, staff a disgyblion yr ysgol a chyfranwyr o wledydd tramor am deyrnged mor arbennig i Siân ac i Lowri Mathews am yr englyn trawiadol hwn er cof amdani:

Er dwyn ein derwen mewn ennyd - ei hoes  
sy 'mhob mesen ddiwyd,  
ac olion gwreiddiau'i golud  
yw'r her i'n hiro o hyd.

Bu Rebecca Hayes yn adolygu'r papurau a'r gwefannau ar **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru**. A chlywyd Elinor Wyn Reynolds yn siarad am enwau plant ar raglen **Aled Hughes** ar **Radio Cymru**.



Llongyfarchiadau i Siwan Jones a Gwenllian Miles Jones sy'n ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ar gael eu derbyn i Gôr Ieuencid Prydain Fawr. Rhagorol!

Llongyfarchiadau hefyd i Beca Thomas, merch Owain a Lucy Thomas a wyres Glenys a Sulwyn Thomas ar ennill ei chap rhyngwladol cyntaf yn ddiweddar drwy gynrychioli Cymru yn erbyn Iwerddon mewn pêl-droed dan 16. Dilyn tad-cu, mae'n rhaid!!

Da clywed am lwyddiant Rhiannon a Heledd Jones yng nghamp Siarad Cyhoeddus cyfrwng Saesneg. Mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd dan nawdd Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar yn Nantgaredig daeth Clwb Ffermwyr Ifainc Dyffryn Tywi - y mae Heledd a Rhiannon yn ei gynrychioli - yn ail. Cafodd Heledd ei dewis ar gyfer Tîm Cymru a Rhiannon yn aelod wrth gefn. Ardderchog ferched!

Rydym yn llongyfarch y Dr Angharad Wyn ar gwblhau'i hyfforddiant meddygol a chymhwyso fel meddyg teulu. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

A chofiwch y bydd Oedfa Bore'r Nadolig ar S4C yng ngofal Beti-Wyn.



**AC / GLOI**, ein dymuniadau gorau i Mair Lewis sy'n dathlu'i phen-blwydd yn 90 oed ar 12 Rhagfyr. Mae Mair yn weddw i'r diweddar Tom Lewis, Trysorydd y Priordy am flynyddoedd lawer. Pob dymuniad da iddi ar yr achlysur arbennig hwn.

### Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ionawr i'n Gweinidog neu Alun Charles

#### CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Gill a Danny Owens ar golli cefnder i Gill, sef Eddie Evans o Bedford (gynt o Herbon, Sir Gâr) ar 6 Tachwedd 2021.

Roedd Gill wedi'i chodi fel chwaer iddo mewn gwirionedd. Cofiw'n am ei briod Janice a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u colled.

Cydymdeimlwn ag Adrian a Gloria Evans ar golli Emrys Lewis Aberaeron (gynt o Frynpeithyll, Aberarth), sef ewythr Adrian, ar 9 Tachwedd 2021. Meddyliwn am Meinir ac Enfys, y merched, a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Elinor Wyn Reynolds a'r teulu ar golli modryb Elinor, sef Margaret Peasley yn Thomastown, Y Rhondda (ond o Dreorci'n wreiddiol) ar 15 Tachwedd 2021. Roedd hi'n chwaer i'r ddiweddar Elizabeth Reynolds ac yn ystod ei bywyd hir a llawn gwasanaethodd fel nyrs a gweithwraig gymdeithasol.

#### GAIR O WERTHFAWROGIAD

Diolch o galon i'n gwesteion arbennig sydd wedi bod mor barod i gyfrannu i Rifyn Nadolig ein Papur, sef Syr Bryn Terfel, Siân Thomas, Rhys Patchell a Guto Hari. Diolch i chi i gyd am eich lluniau a'ch diddordeb a hefyd eich dymuniadau da.



## Y SULIADUR



|         |    |              |                                                                                                  |          |
|---------|----|--------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------|----------|
| Rhagfyr | 5  | Bore         | Oedfa gyda'n Gweinidog.<br>Casgliad at Ganolfan Galw-i-mewn Capel y Bedyddwyr Saesneg            | <b>C</b> |
|         |    | Hwyr         | Oedfa dan Olau Cannwyll am 5 dan ofal PIP (Pobl Ifainc y Priorddy)                               |          |
|         | 12 | Bore         | Oedfa Nadolig y Priorddy am 3<br>Casgliad at Yr Ysgol Sul. Casgliad olaf y flwyddyn              |          |
|         | 19 | Bore<br>Hwyr | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog<br>Oedfa'r Ofalaeth yn y Gymuned ym Mancyfelin am 6 |          |
|         | 26 | Bore         | Oedfa Ddigidol yr Ofalaeth gyda'n Gweinidog                                                      |          |

|        |    |      |                                                                |          |
|--------|----|------|----------------------------------------------------------------|----------|
| Ionawr | 2  | Bore | Oedfa Gymun yr Ofalaeth gyda Theulu Llinos Jones a'n Gweinidog | <b>C</b> |
|        | 9  | Bore | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog                                   |          |
|        | 16 | Bore | Oedfa gyda'r Parchedig Gethin Rhys                             |          |
|        | 23 | Bore | Oedfa gyda'n Gweinidog                                         |          |
|        | 30 | Bore | Oedfa gyda'n Gweinidog                                         |          |

|                                                                                                                                                                                      |  |  |  |  |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|--|--|
| <p align="center"><b>NOSWYL NADOLIG</b><br/> <b>OEDFA FER DROS ZOOM AM 9.30 YR HWYR</b><br/> <b>BORE NADOLIG</b><br/> <b>OEDFA'R OFALAETH AM 9 YN Y PRIORDY GYDA'N GWEINIDOG</b></p> |  |  |  |  |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|--|--|

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu  
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC                                                                                               |    |    |    |        |    |    |    |    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|----|----|--------|----|----|----|----|
| ✓ Ysgol Sul   PIP - Pobl Ifainc y Priorddy   - Dim Ysgol Sul   CP - Cwrdd Plant<br>N - Oedfa Nadolig am 3   OD - Oeddfa Deulu |    |    |    |        |    |    |    |    |
| Rhagfyr                                                                                                                       |    |    |    | Ionawr |    |    |    |    |
| 5                                                                                                                             | 12 | 19 | 26 | 2      | 9  | 16 | 23 | 30 |
| ✓                                                                                                                             | N  | -  | -  | OD     | CP | ✓  | ✓  | ✓  |

## DALIER SYLW



Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd.

